**Adolygiadau Datblygiad Personol**

Mae Adolygiad Datblygiad Personol (ADP) yn ffordd i aelod a’i Awdurdod asesu anghenion datblygiad personol aelod o’r naill ochr. Dylai'r adolygiad gael ei osod o fewn cyd-destun rôl yr aelod, eu dyheadau am beth maent yn gobeithio ei gyflawni, pwrpas a dyheadau'r Awdurdod ac anghenion y gymuned. Gallai'r cyfweliad cynnwys adolygiad o'r hyfforddiant a datblygiad a gafodd yr aelod. **NID** Gwerthusiad o Berfformiad yw ADP ond yn hytrach mae’n fodd o gefnogi a datblygu aelodau.

Mae cynlluniau ADP yn galluogi aelodau i fagu hyder, datblygu sgiliau a gwybodaeth a gwella eu perfformiad eu hunain a'u cyfraniad at y cyngor a'r gymuned. Gallant ddarparu:

- Eglurder i aelodau am y disgwyliadau a'r atebolrwydd sydd arnynt.
- Dealltwriaeth o, a chefnogaeth ar gyfer anghenion datblygu unigol aelodau ac ar y cyd
- Cefnogaeth i aelodau wrth baratoi ar gyfer rolau newydd (cynllunio olyniaeth)
- Dealltwriaeth a pherchnogaeth o nodau sefydliadol
- Cefnogaeth i wella perfformiad aelodau
- Cynllun wedi’i gytuno sy'n nodi anghenion hyfforddiant a datblygu, os oes rhai, ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Cofnod ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan yr aelod a’r adolygwr
- Dogfen breifat na ddisgwylir iddi gael ei chyhoeddi gan yr awdurdod na’r aelod, er bod yr aelod yn rhydd i gyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw hyfforddiant a datblygiad a gyflawnwyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Canllawiau i Aelodau yn cael eu cyfweld**

Cyn cynnal eich adolygiad efallai bydd yn ddefnyddiol i ystyried y canllawiau canlynol:

**Pwrpas yr Adolygiad**

Pwrpas eich cyfarfod fydd darparu cyfle i adolygu eich rôl yn gyffredinol, ystyried unrhyw dasgau penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ystyried y meysydd lle rydych yn teimlo'n hyderus a nodi meysydd a allai fod yn heriol ac a allai fod angen cefnogaeth a datblygiad. Byddwch yn cael cyfle i nodi anghenion dysgu a datblygu y byddwch wedyn yn gallu adrodd yn ôl i swyddogion Gwasanaethau Democrataidd i drefnu rhaglenni datblygu.

**Paratoi**

Cyn eich cyfarfod bydd angen i chi lenwi’r Cynllun Datblygu Personol (PDP). Bydd hwn yn eich helpu i feddwl am eich rôl, tasgau penodol am y flwyddyn hon ac unrhyw gymorth y gallech fod ei angen. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi adolygu’r disgrifiadau swydd yn Adran 19 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Cysylltwch â'ch cyfwelydd a chynllunio amser a lle sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch, lle gallwch gael sgwrs gyfrinachol heb neb yn tarfu arnoch.

**Cynnal yr Adolygiad**

Cofiwch fod angen i’r sgwrs rhyngoch chi â’ch cyfwelydd yn gyfrinachol.

Defnyddiwch y Ffurflen ADP fel sail ar gyfer eich trafodaethau

Bydd eich cyfwelydd yn eich helpu i ystyried eich rôl/cyfraniad, cryfderau/gwendidau ac anghenion hyfforddi. Byddant yn gweithredu fel seinfwrdd amcanol yn y sgwrs hon.

Nid yw’n rhan o’u gwaith i roi eu hadborth eu hunain ar eich perfformiad.

Nodwch mai eich cyfrifoldeb chi yw ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r sgwrs, cadw unrhyw ddogfennau a thrafod unrhyw anghenion datblygu sy'n dod i'r amlwg gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

Gellir hefyd dod o hyd i unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen oddi wrth yr awdurdod a’u bwydo i mewn i'r sefydliad fel bo'n briodol.